**Y Pwyllgor Diwylliant CC-10-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 15 Mai 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Ymddiheuriadau**

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Swyddogion**

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Adam Peat (Cyfarwyddwr y Gr•p Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant)

Prys Davies (Is-adran Diwylliant a’r Gymraeg)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol)

Richard Clarke (Is-adran Cynllunio Ariannol)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Dafydd Wigley - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru; roedd wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru ac roedd ganddo gysylltiadau ffurfiol â Hijinx Theatre.

- Mae partner Delyth Evans yn gweithio â Pholisi Cyfathrebu a’r Cyfryngau yn Rhif 10 Downing Street.

**<u>Eitem 1: Adolygiad o’r Gymraeg – Papurau: CC-10-02(p.1-3)</u>**

1. I ddechrau ystyriodd yr aelodau Bapur 2 ar Flaenoriaethau ac Argymhellion. Pan ofynnwyd iddo yngl•n â statws y papur, eglurodd y Cadeirydd i’r rhestr gael ei llunio o gofnodion cyfarfodydd blaenorol. Heriwyd hyn gan rai Aelodau nad oeddent yn teimlo iddynt gytuno’n ffurfiol i bob un o’r 33 o faterion fel argymhellion cadarn. Ni theimlai’r Cadeirydd y byddai trafod pellach ar faterion unigol yn adeiladol gan fod y Pwyllgor eisoes wedi rhoi sylw iddynt wrth dderbyn tystiolaeth. Awgrymodd yn hytrach y dylai Aelodau ysgrifennu ato ag unrhyw bryderon.
2. Cyflwynwyd yr eitem ar Ddeddfwriaeth gan Dafydd Wigley. Roedd wedi dosbarthu papur i’r Pwyllgor ynghylch gwneud newidiadau i’r gyfraith yngl•n â statws y Gymraeg. Dywedodd i’r ddeddf bresennol, Deddf Iaith Gymraeg 1993, gael ei llunio er mwyn sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn hytrach nag i ymdrin â hawliau pobl mewn perthynas â’r iaith. Wrth fanylu ar ei bapur, dywedodd Dafydd Wigley fod angen Deddf newydd, ymhlith pethau eraill er mwyn:

- Sicrhau statws cyfartal, swyddogol i’r Gymraeg ac i’r Saesneg
- Darparu rheithgorau Cymraeg eu hiaith
- Rhoi’r hawl i bobl siarad Cymraeg yn eu gweithle
- Rhoi’r hawl i bob plentyn dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn pellter rhesymol

i’w gartref

- Cryfhau’r ddeddfwriaeth Gynllunio mewn perthynas â’r iaith
- Darparu gwybodaeth trwy gyfrwng Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gwneud Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn fwy annibynnol ar y Llywodraeth.

1. Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Ychydig o drafod blaenorol a fu ar fanylion y ddeddfwriaeth newydd a gynigid ac roedd yn hwyr brynhawn i ddod â chynigion newydd gerbron. Byddai aelodau wedi hoffi gweld cyngor cyfreithiol ar y cynigion.

- Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor eisoes wedi cael cyngor cyfreithiol bod gan y Gymraeg statws swyddogol ac atgoffodd yr Aelodau fod y Cwnsler Cyffredinol wedi cynghori y gellid defnyddio’r Ddeddf bresennol i sicrhau nifer o bethau y galwyd amdanynt yn yr adolygiad. Dywedodd ei bod yn barod i wthio ffiniau’r ddeddfwriaeth a chytunodd i ystyried sut y gellid dod â’r cyfleustodau cyhoeddus a’r Cymdeithasau Tai o fewn telerau Deddf 1993.

- Nid oedd mwyafrif o’r farn bod angen deddfwriaeth newydd; awgrymwyd yn hytrach y dylid cynnal ymchwil bellach ar rai o’r materion a godwyd ym mhapur Dafydd Wigley.

1. Cyflwynodd y Cadeirydd bapur yr oedd wedi ei baratoi ar Swyddogaethau a Strwythur. Ynddo cynigiai y dylid ffurfio Ffederasiwn Cenedlaethol o Fentrau Iaith er mwyn dwyn ynghyd yr holl gyrff â diddordeb mewn cynllunio ieithyddol cymunedol a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Byddai’r Ffederasiwn wedyn yn bwydo syniadau i’r Llywodraeth fel bod cymunedau yn gallu cyfrannu at syniadaeth strategol. Byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedyn yn colli’r cyfrifoldeb am y maes hwn.
2. Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Nid oedd fawr o gytundeb y dylid sefydlu corff newydd. Y farn gyffredinol oedd y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg barhau i arwain o ran rhoi polisi’r Llywodraeth ar waith.

- Er bod gan y Cadeirydd amheuon ynghylch y ffaith bod y Bwrdd yn gweithredu fel rheolydd a symbylydd strategaeth, nid oedd Aelodau’n gweld problem yn hyn. Nodwyd nad oedd yr adolygiad pum mlynedd diweddar wedi nodi bod hyn yn destun pryder.

- Yn hytrach na’r Ffederasiwn, awgrymwyd y dylid sefydlu Fforwm Cenedlaethol a fyddai’n dwyn ynghyd yr holl gyrff a oedd â diddordeb yn y Gymraeg neu gyfrifoldeb amdani. Awgrymwyd aelodau posibl: Awdurdod Datblygu Cymru, Mentrau Iaith, Llywodraeth Leol, Bwrdd Croeso Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Rhagwelid y byddai’r Fforwm yn cwrdd yn chwarterol, gyda’r Gweinidog yn Gadeirydd a’r uned bolisi arfaethedig yn darparu’r ysgrifenyddiaeth.

- Roedd cytundeb cyffredinol bod angen i lais pobl leol gael ei glywed ac y gellid sicrhau hyn trwy'r Fforwm, o gynnwys y Mentrau Iaith. Awgrymwyd y dylid darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer strwythur canolog, ond bod rhaid i'r arweiniad ar gyfer hynny ddod oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- Bu peth trafod ynghylch a oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymgymryd â'i swyddogaeth reoleiddio gystal ag y gallai. Os nad oedd, awgrymodd y Gweinidog efallai mai diffyg adnoddau oedd yn gyfrifol. Dylid trafod unrhyw bryderon difrifol â'r Bwrdd.

**Eitem 2: Papur ymgynghorol ar Strwythur Strategol ac Ymgynghorol ar gyfer Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau yng Nghymru – Papur: CC-10-02(p.4)**

1. Cyflwynwyd y papur hwn gan y Gweinidog. Cyfeiriodd at yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau rhagorol a oedd gennym yng Nghymru o ran amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Dywedodd fod y sector yn wynebu llawer her gan gynnwys y cynnydd yn y defnydd o TGCh, gofalu am gasgliadau a'u datblygu, meithrin cysylltiadau rhyngwladol a'r angen i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a gwella'r mynediad at ddysgu. Er pan sefydlwyd RESOURCE yn Lloegr, nid oedd Cymru wedi cael yr un cyfle i symud ymlaen â chynlluniau newydd yn y maes hwn, er bod protocol drafft bellach yn ei le â'r corff hwnnw. Canmolodd y Gweinidog y gwaith a wnaed gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru a Chyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd Cymru, ond nododd nad oedd ganddynt yr adnoddau i ddatblygu pethau. Teimlai'r Gweinidog y dylai Cymru fod yn creu ei rhaglen ei hun yn y maes hwn ac y dylid neilltuo rhagor o adnoddau ariannol, er bod yr adnoddau hynny'n dibynnu ar ganlyniad y cylch cynllunio cyllideb a oedd ar ddod.
2. Croesawodd yr aelodau yr ymgynghoriad. Cytunwyd mai'r meini prawf a restrwyd ym mharagraff 4.4 ym mhapur y Pwyllgor oedd y rhai y dylid eu defnyddio i farnu'r trefniadau. Ystyriwyd y dewisiadau a roddwyd gerbron ar gyfer strwythur newydd a ffafriwyd yn unfryd ddewis 3 sef sefydlu RESOURCE ar gyfer Cymru wedi ei leoli o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â Chyngor Ymgynghorol.

**Eitem 3: Adolygiad pum mlynedd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru – Papur: CC-10-02(p.5)**

Yr adolygwyr a oedd yn bresennol:

Robin Moulson

Graham Hasting-Evans

Lyn Morgan

1. Eglurodd Richard Clarke o'r Is-adran Cynllunio Ariannol yn fyr beth oedd y drefn. Nododd y byddai'r ymgynghorwyr, yn dilyn trafodaeth y diwrnod hwnnw, yn rhoi ffurf derfynol ar yr adroddiad ac yn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Gweinidogion ei ystyried. Byddai adroddiad drafft yr Ail Gam yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin. Gofynnodd i'r Pwyllgor am sylwadau fel rhan o'r broses ymgynghori a holodd a oeddent o'r farn bod angen unrhyw newidiadau i'r cylch gwaith ar gyfer Ail Gam yr adolygiad.
2. Dywedodd Robin Moulson fod yr ymgynghori a wnaed yn eang iawn ac yn cynnwys staff ac aelodau Cyngor y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd yr adolygwyr hefyd wedi ymgynghori â nifer o gyrff diwylliannol eraill ac wedi siarad â nifer o lyfrgelloedd cenedlaethol eraill, gan gynnwys llyfrgell genedlaethol Canada.
3. Y canlynol oedd prif gasgliadau Cam Cyntaf yr adolygiad:

- Mai'r swyddogaethau yr oedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn eu cyflawni oedd y rhai priodol i Gymru. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn yr adolygiad o aneffeithlonrwydd ar lefel strategol.
- Y dylid edrych ar y strwythurau llywodraethu gyda golwg ar ddiddymu'r Llys a diwygio a lleihau'r Cyngor.
- Roedd pryderon ynghylch faint o ddefnydd a gâi ei wneud o wasanaethau llyfrgell. Roedd angen rhoi cynlluniau pellach ar waith i sicrhau rhagor o estyn allan ac roedd achos cryf dros gydweithredu yngl•n â hynny rhwng y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.
- Roedd materion yn ymwneud â threfn gyflogau LlGC yr oedd angen rhoi sylw iddynt, yn arbennig yr angen am arferion gwaith mwy hyblyg.
- Mynegodd y Llyfrgell ei hun bryderon ynghylch y glastwreiddio posibl ar ei ffynonellau cyllido preifat.

1. Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Croesawodd yr aelodau yr adroddiad a chytunent â'r casgliad fod angen moderneiddio trefn lywodraethu'r Llyfrgell a'i gwneud yn fwy tryloyw.
- Mynegwyd pryderon ynghylch faint o waith allanol yr oedd y Llyfrgell yn ei wneud. Atebodd yr adolygwyr gan ddweud bod y Llyfrgell, yn yr achosion hynny lle cafodd hyd i adnoddau i

estyn allan i'r gymuned, wedi gwneud hynny'n llwyddiannus iawn.

- Mynegodd yr aelodau bryder hefyd ynghylch polisïau cyfle cyfartal y Llyfrgell. Atebodd yr adolygwyr fod cysylltiad agos rhwng unioni'r mater hwn a'r adolygiad o'r drefn lywodraethu. Wrth ymateb i bryder penodol ynghylch mynediad i bobl anabl at y casgliadau, addawodd yr adolygwyr edrych ar hyn yn Ail Gam yr adolygiad.
- Bu peth trafod ar bolisi casgliadau'r Llyfrgell. Roedd yr Aelodau yn falch bod ffiniau clir rhwng casgliadau LlGC ac AOCC.
- Wrth ymateb i bwynt ynghylch polisi recriwtio LlGC ac yn arbennig y diffyg ymgeiswyr dwyieithog, atebodd yr adolygwyr y byddai hyn yn cael sylw yn ystod Ail Gam yr adolygiad.

**<u>Eitem 4: Trafodaeth ar y Mesur Cyfathrebu – Eitem lafar</u>**

Yn bresennol:

Diana Kahn, Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Peter Wright, Yr Adran Fasnach a Diwydiant

1. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem yn fyr. Dywedodd fod y Mesur yn hir a chymhleth ac yn cynnwys llawer agwedd benodol a oedd o ddiddordeb allweddol i Gymru. Trosglwyddodd yr awenau i Diana Kahn a Peter Wright a aeth â'r Pwyllgor trwy rai o brif gymalau'r Mesur.
2. Dywedodd Diana Kahn fod y Mesur yn bwrw ymlaen â'r hyn a oedd wedi ei osod allan ym Mhapur Gwyn Rhagfyr 2000. Roedd y Mesur yn cynnwys thema ddadreoleiddio gref, ond ei elfen ganolog oedd creu rheolydd cyfun, OFCOM.
3. Rhoddodd Peter Wright, aelod o Dîm y Mesur, amlinelliad o rai elfennau o ddyletswyddau ac adeiladwaith OFCOM. Dywedodd y byddai dyletswydd yn cael ei rhoi ar OFCOM i roi ystyriaeth i bob rhan o'r Deyrnas Unedig wrth gyflawni ei swyddogaethau. Yn wahanol i'r rheolyddion presennol, ni fyddai OFCOM yn gweithredu fel Comisiwn; byddai haenau eraill o fewn y corff yn cynnwys Uned Weithredol ac elfennau gwneud penderfyniadau. Roedd y Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i OFCOM sefydlu Bwrdd Cynnwys a fyddai'n edrych ar gynnwys rhaglenni ac yn cynnwys cynrychiolaeth benodol o'r cenhedloedd a'r rhanbarthau. At hynny, byddai Panel Defnyddwyr i roi cyngor i OFCOM ar wasanaethau electronaidd i ddefnyddwyr. Byddai cynrychiolaeth benodol ar y Panel hwnnw hefyd o'r cenhedloedd cyfansoddol.
4. Byddai'r peirianwaith cynghori ac ymgynghorol penodol o fewn OFCOM yn adrodd yn uniongyrchol wrth yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn y cenhedloedd cyfansoddol. Roedd gweinidogion hefyd wedi rhoi ymrwymiad y byddai disgwyl i OFCOM sefydlu swyddfeydd yn y cenhedloedd, cynnal cyfarfodydd rheolaidd mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig a sicrhau trefniadau ymgynghori perthnasol o fewn y rhanbarthau.
5. Gorffennodd Diana Kahn trwy roi amlinelliad byr o agweddau eraill ar y Mesur. Ymhlith y rhain yr oedd Darlledu Sector Cyhoeddus, rhoi fframwaith Ewropeaidd

Newydd ar waith ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau rheoleiddio, perchenogaeth ar y cyfryngau a Spectrum, er y gallai hwnnw gael ei newid yng ngoleuni'r adolygiad annibynnol o Spectrum.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Nid yw OFCOM wedi ei sefydlu eto; derbyniodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth eleni a bellach gellir penodi Bwrdd OFCOM. Ni fydd OFCOM yn endid cyfreithiol hyd nes y bydd y Mesur Cyfathrebu wedi ei basio.
- Mae'r Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr yn ddau gorff cwbl ar wahân. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penodi i'r Panel gan roi sylw dyledus i'r drefn cyfle cyfartal er mwyn sicrhau ei fod yn gynrychioliadol. Bydd y Panel yn adrodd wrth OFCOM ac yn gwneud argymhellion. Disgwylir i'r Bwrdd Cynnwys chwarae rhan strategol. Byddai'r Bwrdd yn fychan ac yn hoelio'i sylw'n benodol a byddai ganddo swyddogaeth strategol glir.
- Mae'r Mesur Cyfathrebu yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o'r Bwrdd Defnyddwyr. Ariennir y Panel gan OFCOM.
- Rhestrir amddiffiniadau yn y mesur, i ddiogelu'r ganran o raglennu rhanbarthol a gynhyrchir ac a ddarlledir. Mae gan OFCOM y grym i ailystyried trwyddedau Sianel 3 pan fyddant yn newid dwylo a gallai bryd hynny gryfhau cynnwys rhanbarthol y rhaglennu.
- Nid yw'r Mesur yn ymdrin â mater diffodd gwasanaethau analog.
- Roedd cwestiynau yngl•n â'r ffordd y bydd S4C yn cael ei rheoleiddio ac a fydd yn cael ei thrin yn yr un ffordd â'r BBC neu beidio. Atebodd Diana Kahn y bydd S4C yn cael ei rheoleiddio gan OFCOM o safbwynt elfennau meintiol darlledu ac o ran cydymffurfiad safonau cynnwys â rheoliadau yngl•n â bod yn ddiduedd. Bydd rhaid i S4C lunio datganiad o bolisi rhaglennu, y ceir manylion amdano yn Atodlen 8 y Mesur.

**<u>Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai – CC-9-02(min)</u>**

5.1 Cytunwyd i dderbyn y rhain heb newid. Cytunodd y Pwyllgor petai Aelodau yn bresennol am ran yn unig o gyfarfod, na fyddid yn nodi hynny yn y cofnodion. Byddai'r cofnod yn nodi'n unig fod Aelodau yn bresennol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**